

Cylchlythyr Ffes 3: Gorffennaf 2022



Ffarwelio efo Blwyddyn 11

Cawsom ddiwrnod arbennig i ddathlu cyfnod Blwyddyn 11 yn dod i ben yn Ysgol Bro Idris. Dechreuodd y diwrnod efo gwasanaeth ffarwelio swyddogol gyda'r neuadd yn orlawn gyda disgyblion Blwyddyn 6-11, staff a rhieni. Dechreuodd y gwasanaeth efo perfformiad arbennig gan gôr Blwyddyn 6. Yna, cyflwynodd Mrs Delyth Medi Jones limrig i bob disgybl a chyflwynwyd tair tystysgrif arbennig sef disgybl y flwyddyn i Cai Gray Evans, ymdrech mwyaf i Oliwia Stone a chynnydd mwyaf i Siôn Gunton. Cawsom air o ddiolch gan y prif ddisgyblion ac yna gorffen y gwasanaeth efo anthem Ysgol Bro Idris. Yna wrth gwrs roedd yn rhaid cael cyfle i arwyddo crysau a ffarwelio efo athrawon a disgyblion iau'r ysgol cyn gadael er mwyn ymbincio yn barod at y prom.

Dechreuodd y disgyblion gyrraedd y prom am 1:30 a cherdded ar hyd y carped coch gyda gwydr o 'Brosecco' tuag at y neuadd gyda disgyblion Ffes 2 yn cymeradwyo. Cawsom brynhawn bendigedig yn dathlu. Bu Mrs Awel Davies a Mr Cellan Lewis yn brysur yn cyflwyno tystysgrifau gwirion i'r holl ddisgyblion yn ogystal â chwis am staff yr ysgol. Roedd digonedd o fwyd yn ogystal â stondin 'mocats', 'booth lluniau', a chwis lluniau babi. Diolch i bawb a fu'n brysur yn paratoi tuag at y diwrnod arbennig yma. Rydym yn dymuno'n dda i bob disgybl blwyddyn 11 ar eu cam nesaf.

Wythnos gweithgareddau + Profiad Gwaith

Wel am wythnos i flwyddyn 9! Maent wedi cael ail wythnos gweithgareddau yn ystod yr wythnos olaf a oedd yn cynnwys sesiwn rygbi cadair olwyn, adeiladu tîm, sinema, taith gerdded a gwyl gemau. Pawb wedi mwynhau!

Mae disgyblion blwyddyn 10 wedi bod yn ffodus iawn i gael y cyfle i fynychu profiad gwaith eleni. Mae amrywiaeth o leoliadau wedi cytuno rhoi profiad i'r disgyblion gan gynnwys ysgolion, busnesau lleol, canolfannau hamdden a ffermydd. Diolch o galon i Mrs Awel Davies am drefnu.



Gwaith maes daearyddiaeth

Fel rhan o'u gwaith maes, aeth criw TGAU Daearyddiaeth i gasglu data ar hyd Nant Cynnydd ac Afon Glaslyn. Roedd gofyn iddynt fynd i mewn i'r afon i fesur lled, dyfnder a chyflymder y llif. Wrth gwrs roedd hefyd angen cyfle i gael egwyl fach a hufen ia ym Meddgelert ar ddiwrnod mor braf a phrysur! Bydd y disgyblion yn cwblhau'r asesiad ym mis Tachwedd. Diolch i Miss Cornes am drefnu ac i Mr Lewis a Mr Williams am gefnogi.



Prosiect STEM Robotics Cymru

Bu criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 yn brysur iawn yn ddiweddar yn ystod eu hamser cinio yn creu robot arloesol fel rhan o brosiect Technocamps. Llwyddodd y disgyblion i greu robot oedd yn gallu symud a stopio pan oedd dibyn o'i flaen yn ogystal â rhaglennu'r robot gan ddefnyddio cōd. Cafodd y robot ei feirniadu fel rhan o gystadleuaeth Technocamps ac roedd canmoliaeth i'r grŵp. Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu llwyddiant a diolch i Miss Ruth Jones am eu paratoi!



Addysg Gorfforol Rygi cadair olwyn

Braf oedd cael croesawu yr WRU yn ôl i'r ysgol i gynnal sesiynau rygbi cadair olwyn efo blwyddyn 9. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig ac yna daeth tro'r staff. Unwaith eto, gem gystadleuol iawn!



Mabolgampau

Diwrnod llawn hwyl ar y Brif Safle ar ddiwedd y tymor gyda mabolgampau yn dychwelyd. Roedd cystadlu o safon uchel a llwyddodd Ifan Davies a Freida Dimmer dorri record disgen a Jim Tookey dorri'r record naid hir – llongyfarchiadau mawr iddynt. Y tîm buddugol oedd Y Mabinogion gyda 931 o bwyntiau.

Criced

Llongyfarchiadau i'r tîm merched dan 13 am lwyddo i ddod yn bedwerydd trwy Ogledd Cymru yn dilyn yr ail

gylch o gystadlu ym Mae Colwyn.



Her Menter

Bu dysgwyr BI.10 wrthi'n ddygn yn paratoi tuag at eu hasesiad Her Menter fel rhan o'u cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau yn ddiweddar. Eu briff oedd datblygu cynnyrch ar gyfer hwyluso bywyd ysgol i ddysgwyr 3-16 oed a/neu staff yr ysgol. Cafwyd syniadau arbennig, a bu iddynt gyflwyno â hyder o flaen panel o 'Ddreigiau!' Diolch i'r dysgwyr am y cydweithio brwd a'r paratoi trylwyr. Efallai bod syniad ar gyfer y dyfodol ymysg y perlau a gawsom!

Taith

Blwyddyn 10 i Gaerdydd

Treuliodd Disgyblion blwyddyn 10 deuddydd yng Nghaerdydd yn

ddiwedd. Yn rhan o'r daith, buom lawr yn Big Pit, Laser Quest, Y Sinema, taith addysgiadol yn y Senedd gan offren yn y Parc Aqua. Cafodd pawb amser wrth eu bodd. Hoffai Mrs Awel Davies ddiolch o galon i'r holl ddisgyblion am eu hymddygiad arbennig trwy gydol y daith.



Ffarwelio efo Staff

Dymuniadau gorau i'r staff sydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Mae rhai yn ymddeol ac eraill yn symud ymlaen i swyddi newydd. Bydd hiraeth amdanoch i gyd!

Taith Blood Brothers Blwyddyn 9 a 10

Cawn gyfle arbennig i fynd i Lerpwl ar y 27/10/22 i weld y sioe Blood Brothers. Bydd hyn yn gyfle gwych er mwyn atgyfnerthu eu gwybodaeth am y ddrama gan sicrhau dealltwriaeth bellach ar gyfer eu harholiad TGAU. Rydym yn annog yn gryf bod eich plentyn yn mynychu. Cost y daith yw £33.

Dyddiadau Pwysig:

Dyddiad:	Gweithgaredd:
15/7/22	Gwyliau'r Haf
25/8/22	Canlyniadau TGAU (BI 10 + 11) Disgyblion i'w casglu ar y Brif Safle rhwng 9:00-10:30
1/9/22 + 2/9/22	HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
5/9/22	Diwrnod cyntaf i'r disgyblion
19/9/22	Tempest tynnu lluniau ar y brif safle (BI 7-10)
31/10/22	Hanner Tymor
21/11/22	Tempest tynnu lluniau ar y brif safle (BI 11)

Pwyntiau Cyswllt Ffês 3

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Pennaeth Cynorthwyl Ffês 3
Miss Melanie Cooper

Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 3
Mrs Awel Davies